PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

# Arian - Rhoi rhywfaint o arian heibio

## Canllaw i bobl ifanc

Adnodd 4 o 12

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

VFCC
VOICES FROM CARE CYMRU

Mae'n bosib hoffet ti ddarllen yr adnoddau hyn hefyd:

- Cyllidebu
- Arian - Mae angen peth arna i!
- Cadw fy hun, fy arian a'r eiddo sydd gen i yn ddiogel

Prosiect Paratoi

I gynyddu'r siawns y byddi'n gallu cynilo arian, gofala dy fod ti'n derbyn yr holl arian sy'n bosib o lefydd eraill.

## Grantiau

Yn dibynnu ar dy incwm presennol o fudd-daliadau neu o swydd, efallai gallet ti gael grant. Mae grant yn arian sy'n cael ei roi i ti i'th helpu i dalu am eitem benodol. Does dim rhaid i ti dalu grant yn ôl.

- Siarad â'th Gynghorydd Personol am y grantiau gallet ti eu hawlio gan yr awdurdod lleol.
- Os oes gen ti blentyn, edrych ar yr adnodd sydd gennym ni i rieni
- Edrych ar yr adnodd sydd gennym ni am fudd-daliadau a hawl i fudd-daliadau i weld beth gallet ti ei gael tuag at gostau ynni
- Mae Ymddiriedolaeth y Tywysog yn cynnig grantiau tuag at rai o gostau sylfaenol hyfforddiant neu swydd newydd
- Mae Capston Care Leavers Trust yn cynnig grantiau ar gyfer eitemau hanfodol i bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal

## Gwerthu Eitemau

Os oes gen ti bethau yn y tŷ dwyt ti ddim yn eu defnyddio bellach, fel dillad neu gêmau cyfrifiadurol, rho gynnig ar eu gwerthu nhw i godi'r arian sydd ei angen.

Gelli di roi cynnig ar werthu eitemau yn y mannau hyn:

- grwpiau prynu/gwerthu ar eBay neu Facebook
- Shpock
- Siop leol sy'n cyfnewid gêmau cyfrifiadurol

## ISA Pobl Ifanc

- Os wyt ti wedi bod mewn gofal am fwy na 12 mis bydd yr awdurdod lleol wedi trefnu ISA Pobl Ifanc i ti
- Unwaith rwyt ti'n troi'n 18 oed, byddi'n gallu cael yr arian yma os byddi di angen
- Ond, os nad oes ei angen arnat ar hyn o bryd, beth am ddal ati i gynilo'r arian fel bod arian gen ti pan fydd angen

## Cyflogaeth

Os wyt ti mewn gwaith a bod angen rhagor o arian arnat ti, efallai byddi di am wneud y pethau yma:

- Holi a fydd goramser ar gael yn yr wythnosau nesaf
- Gwirio dy fod ti'n cael yr hyn mae gen ti hawl i'w gael trwy edrych ar yr adnodd sydd gennym ni ar Fudd-daliadau a Hawl i fudd-daliadau – cyflogaeth.
- Gwirio oes modd hawlio rhai budd-daliadau a gweithio ar yr un pryd. Edrych ar yr adnodd sydd gennym ni ar gyflogaeth neu cysyllta â'r Cyngor Ar Bopeth lleol

## Budd-daliadau

P'un a wyt ti'n gweithio neu beidio, efallai byddi di'n gallu hawlio rhai budd-daliadau. I wirio dy fod ti'n cael yr hyn mae gen ti hawl i'w gael, edrych ar:

- yr adnodd Budd-daliadau a hawl i fudd-daliadau rydyn ni wedi ei baratoi
- Siarad â'th Gynghorydd Personol
- Siarad â'th Anogwr Gwaith yn y Ganolfan Waith
- Siarad â'r Cyngor ar Bopeth lleol

# MATHAU O GYNILION

## Enghreifftiau o Gyfrifon Cynilo

Mynediad Hwylus:
- Cymdeithas Adeiladu Principality - 0.9% AER
- Banc Barclays - 0.25% AER

Cyfrif Cynilo Rheolaidd:
- Virgin Money- 2% AER
- Cymdeithas Adeiladu Abertawe - 2.75% AER

Cyfrifon â Mynediad Cyfyngedig:
- Cymdeithas Adeiladu Nationwide - 1.21% AER (cei godi arian deirgwaith yn unig)

Nid cyfrifon 'gorau' yw'r rhain. Unig bwrpas yr enghreifftiau hyn yw dangos beth sydd ar gael. Mae llawer o fanciau a chymdeithasau adeiladu'n cynnig cyfrifon cynilo.
Roedd y cyfraddau llog uchod yn gywir ym mis Tachwedd 2019

Mae gwahanol ffyrdd o gynilo arian, yn dibynnu ar pa mor gyflym bydd angen i ti gael gafael arno. Bydd y canllaw yma'n bwrw golwg sydyn ar rai o'r dewisiadau.

## Wyddet ti?

- Dy fod ti'n gallu agor cyfrif cynilo mewn unrhyw fanc, nid dim ond y banc lle mae dy gyfrif cyfredol.
- Felly gofala chwilio am yr un gorau.

## Mynediad Hwylus (Easy Access)

- Fel mae'r enw'n awgrymu, mae'r math yma o gyfrif cynilo yn golygu bod modd i ti gael dy arian yn gyflym, heb unrhyw gosb.
- Mae'n hawdd agor y cyfrifon hyn
- Fel arfer, cei dalu i mewn faint fynni di bob wythnos/mis
- Fel arfer, cei dynnu arian allan mor aml ag y mynni di yn ystod y flwyddyn
- Mae'r llog byddi di'n ei ennill yn debygol o fod yn llai na mathau eraill o gynilion

## Cyfrif Cynilo Rheolaidd (Regular Saver)

- Math o gyfrif cynilo sy'n gofyn dy fod ti'n talu swm penodol o arian i mewn bob mis
- Mae'r swm hwn fel arfer rhwng £25 a £250 y mis
- Mae'n bosib bydd rhai cyfrifon yn dy 'gosbi' am dynnu arian allan
- Gall y gyfradd llog gael ei gosod am flwyddyn. Mae hyn yn golygu y bydd yn llawer llai ar ôl 12 mis.

## Cymorth i Gynilo (Help to Save)

- Os wyt ti'n derbyn Credyd Cynhwysol, rwyt ti'n cael defnyddio Cymorth i Gynilo
- Fe gei di gynilo rhwng £1 a £50 y mis
- Fe gei di dâl bonws ar ddiwedd yr ail a'r bedwaredd flwyddyn.
- Mae'r bonws yn werth 50c am bob £1 rwyt ti'n cynilo (os nad wyt ti'n codi arian o'r cyfrif), sy'n llawer uwch na'r llog byddet ti'n ei gael drwy gynilo mewn banc
- I wneud cais, cer i:
  https://www.gov.uk/get-help-savings-low-income

## AE Beth?

- AER. Cyfradd Flynyddol Gyfatebol.
- Dyma union swm y llog fesul blwyddyn sy'n cael ei ennill trwy roi arian mewn cyfrif cynilo.
- Mae'n wobr am gynilo arian.

## Mynediad Cyfyngedig

- Mae'r math yma o gyfrif cynilo yn caniatáu i ti dynnu arian allan ychydig o weithiau yn unig bob blwyddyn
- Gall hynny fod rhwng unwaith a phedair gwaith y flwyddyn.
- Os bydd rhaid i ti godi arian yn amlach bydd y banc yn gostwng y gyfradd llog

Mae newidiadau o ran technoleg yn cynnig ffyrdd newydd o gynilo. Dyma rai enghreifftiau, gyda thechnoleg a heb dechnoleg

### Enghreifftiau o sut gallai dy arian dyfu

Mynediad Hwylus (0.9% AER):

- Cynilo £5 y mis
- Ar ôl 12 mis byddi wedi cynilo £60
- Plws 25c o log

Cyfrif Cynilo Rheolaidd (2.75% AER)

- Cynilo £25 y mis
- Ar ôl 12 mis byddi wedi cynilo £300
- Plws £3.81 o log

Cyfrifon â Mynediad Cyfyngedig (1.21% AER)

- Cynilo £10 y mis
- Ar ôl 12 mis byddi wedi cynilo £120
- Plws 67c o log

Nid y cyfrifon 'gorau' yw'r rhain. Unig bwrpas yr enghreifftiau hyn yw dangos beth sydd ar gael. Mae llawer o fanciau a chymdeithasau adeiladu'n cynnig cyfrifon cynilo.
Roedd y cyfraddau llog uchod yn gywir ym mis Tachwedd 2019

# FFYRDD ERAILL O GYNILO

## Her Cynilo 1c

- Ffordd o arbed mwy na £650 y flwyddyn
- Cynila 1c ar y diwrnod cyntaf
- Y diwrnod nesaf, cynila geiniog ychwanegol ac yn y blaen
- Mae gan Money Saving Expert offeryn sy'n cadw golwg ar y cynilo rwyt ti'n ei wneud
- **https://www.moneysavingexpert.com/team-blog/2019/12/the-1p-365-day-savings-challenge/**



## Cynilo'r Newid

- Mae nifer o fanciau'n cynnig y cynllun hwn bellach
- Pan fyddi'n talu â cherdyn, byddan nhw'n talgrynnu'r swm i'r bunt agosaf ac yn cynilo'r gwahaniaeth
- Felly, os bydd yr eitem yn costio £3.60, byddi di'n talu £4, gyda 40c yn mynd i gyfrif cynilo
- Mae'n bosib ei osod yn awtomatig trwy'r cyfleuster bancio ar-lein os yw'r nodwedd hon gan dy fanc

### Wyddet ti?

- Dy fod ti'n gallu agor cyfrif cynilo mewn unrhyw fanc, nid dim ond y banc lle mae dy gyfrif cyfredol.
- Felly gofala chwilio am yr un gorau.

## Amlenni

- Defnyddia fanc neu ap sy'n caniatáu i ti roi arian heibio yn awtomatig mewn 'amlenni' neu 'botiau', er enghraifft Monzo
- Fel hyn, bydd arian yn cael ei dynnu'n awtomatig o'th brif gyfrif a'i roi mewn 'amlen' gynilo neu amlen ar gyfer biliau hanfodol.
- Bydd hyn yn caniatáu i ti arbed arian heb sylwi braidd

## Archebion Sefydlog

- Gallet ti agor dy gyfrifon cynilo dy hun
- Yna, trefna archebion sefydlog sy'n mynd allan ar y diwrnod mae dy arian yn dod i mewn
- Drwy wneud hynny, fyddi di ddim yn ei wario gynta!

### Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am yr hyn sydd gan fanciau, cymdeithasau adeiladu ac undebau credyd i'w gynnig, gan gynnwys y gwahaniaethau rhwng gwahanol gyfrifon cynilo, cer i

- https://www.moneyadviceservice.org.uk/en
- https://www.moneysavingexpert.com/

# CYNILO GYDAG UNDEB CREDYD

Dewis arall yn lle'r banciau a'r cymdeithasau adeiladu arferol ar y stryd fawr yw undebau credyd. Yma, byddwn ni'n trafod beth sydd ganddyn nhw i'w gynnig.

## Undeb Credyd

Mae yna undeb credyd yn dy ardal di. Maen nhw'n cynnig nifer o wahanol bethau:

- Cyfrifon cynilo syml
- Benthyciadau
- Cyfrifon cyfredol

Ynys Môn:
- Undeb Credyd Cambrian
- 01286 678686

Mae undeb credyd yn gweithio trwy ddefnyddio cynilion llawer o bobl (aelodau) i helpu i roi benthyg arian i bobl

- Mae rhoi arian heibio i gynilo ar gyfer rhywbeth rwyt ti wir am ei gael yn rhoi boddhad mawr.
- Byddi di wir yn teimlo dy fod wedi haeddu'r eitem!

## Cynilion

- Mae'r broses o agor cyfrif cynilo wedi cael ei chynllunio i fod yn syml iawn
- Fe gei di gynilo faint fynni di bob wythnos neu bob mis
- Fe gei di godi'r arian mor aml ag y bydd ei angen
- Unwaith mae gen ti gyfrif, rwyt ti'n dod yn 'aelod' o'r undeb credyd

- Y ffordd hawsa o gynilo arian yw rhoi swm heibio cyn gynted ag y bydd dy gyflog neu fudd-daliadau'n dod i mewn i'th gyfrif.
- Bydd hyn yn dileu'r temtasiwn i'w wario!!

## Llog

- Yn lle cael llog ar dy gynilion, rwyt ti'n ennill difidend bob blwyddyn.
- Swm sy'n cael ei roi bob blwyddyn yw difidend.
- Mae'r swm, sy'n cael ei rannu rhwng yr aelodau, yn seiliedig ar yr 'elw' mae'r undeb credyd yn ei wneud